Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2041A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 6

Rheoli adnoddau ariannol 13

Cynllunio gweithredol 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi’i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i’r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi’r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi’r gorau i weithgarwch wedi’i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso’r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a’r rheiny’n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol a oedd yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio’r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i’r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu’r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i’r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19[1]. Roedd ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i’r cynnydd a wnaed o ran mynd i’r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle’r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae’r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a

[1] Cafodd y broses o gyflawni ein gwaith ei chydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm Archwilio Mewnol o lywodraethu a oedd yn cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Mae’r argymhellion blaenorol i’w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn 2019 i'w weld yma.

- chynllunio gweithredol: i ategu’r ymateb parhaus i’r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Negeseuon allweddol

6 Canfuom, ar y cyfan, fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod y pandemig. Fe’i cynorthwywyd yn hyn o beth trwy fod â Bwrdd sefydlog a chydnerth, ac addasu trefniadau llywodraethu’n gyflym i gefnogi prosesau penderfynu ystwyth yn ystod y pandemig. Bu ymrwymiad i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw ac i ddefnyddio gwersi i helpu i lunio trefniadau yn y dyfodol.

7 Er bod elfennau o system rheoli risgiau’r Bwrdd Iechyd wedi cael eu datblygu ymhellach, gellir deall bod yr angen i ymateb i’r pandemig wedi arafu’r cynnydd. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal systemau i oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn ystod y pandemig ac i fynd i’r afael ag argymhellion archwiliadau ac adolygiadau allanol.

8 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2019-20 ond mae costau sy’n gysylltiedig ag ymateb i COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol. Rhagwelir diffyg o £58 miliwn ar gyfer 2020-21 ar hyn o bryd. Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rheolaethau ariannol cadarn mewn perthynas â COVID-19, ond roedd peth oedi cyn cofnodi penderfyniadau ariannol allweddol.

9 Cafodd cynlluniau gweithredol eu datblygu’n gyflym gyda’r Bwrdd a’u goleuo gan waith cadarn i fodelu’r galw a chapasiti. Mae cynlluniau’n dangos ymrwymiad i les staff ac addasu i ffyrdd newydd o weithio. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ynghylch cyflawniadau allweddol yn ystod chwarter 1 ac mae’n dal i ddatblygu prosesau ar gyfer monitro’r modd y cyflawnir cynlluniau, deilliannau ac effaith a phan oedd y pandemig ar ei anterth roedd gwybodaeth a oedd yn cael ei darparu ar gyfer y Bwrdd am fetrigau’r gweithlu a diogelwch staff yn gyfyngedig.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith yn 2020 ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yn yr adroddiad. Byddwn yn adolygu’r cynnydd yn erbyn y rhain ac argymhellion a wnaed yn 2019 sy’n dal heb gael eu rhoi ar waith fel rhan o’n gwaith yn 2021.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig.

12 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da ar y cyfan yn ystod y pandemig, ond y gallai trosolwg strategol ar fetrigau'r gweithlu fod wedi cael ei gryfhau a bod cynnydd o ran rhoi trefniadau rheoli newydd ar waith wedi arafu o ganlyniad i'r pandemig**.

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Fe wnaeth Bwrdd sefydlog a chydnerth arwain y sefydliad yn ystod y pandemig gyda chamau'n cael eu cymryd i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw a phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym

##### Cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw gan gael ei gynorthwyo gan Fwrdd sefydlog a chydnerth, ac mae'n defnyddio'r gwersi i lunio trefniadau yn y dyfodol

13 Bu gan y sefydliad Fwrdd sefydlog yn ystod y pandemig gyda phenodiadau pedwar Aelod Annibynnol, gan gynnwys yr Is-Gadeirydd, wedi cael eu hestyn, gan sicrhau parhad a chynnal capasiti. Bu parhad ymhlith cyfarwyddwyr gweithredol gyda dau gyfarwyddwr gweithredol mewn rolau interim. Bydd Prif Weithredwr newydd yn ymgymryd â'i swydd yn gynnar ym mis Medi 2020, a phryd hynny bydd prosesau recriwtio ar gyfer swyddi parhaol yn cael eu trefnu.

14 Fe aseiniwyd dirprwyon yn y cynllun dirprwyo i sicrhau cydnerthedd a pharhad busnes ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol. Fe wnaeth y Bwrdd hefyd adnabod dirprwyon ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd rhag ofn iddynt fod yn absennol i sicrhau parhad busnes y Bwrdd.

15 Fe barhaodd sesiynau datblygu'r Bwrdd trwy gydol y pandemig, ond ni chymerodd y Bwrdd Iechyd y cyfle i'w defnyddio er mwyn briffio Aelodau Annibynnol ar ei ymateb i'r pandemig. Dim ond tuag ag ddiwedd mis Ebrill ac ar eu cais hwy y cafodd trefniadau ymgysylltu wythnosol rheolaidd gydag Aelodau Annibynnol eu sefydlu, ond unwaith y cawsant eu sefydlu roeddent yn cael eu gwerthfawrogi gan aelodau. Roedd y cyfarfodydd ymgysylltu hyn yn anffurfiol ac ni chadwyd cofnodion ohonynt, ond fe gafodd Aelodau Annibynnol gofrestr risgiau COVID-19 wythnosol y Grŵp Rheoli Aur felly roeddent yn cael gweld y risgiau a'r camau lliniaru mewn perthynas ag ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig. Er gwaethaf yr oedi cyn sefydlu trefniadau cyfathrebu rheolaidd, dywedodd aelodau'r Bwrdd fod ganddynt berthnasoedd gweithio da dangosodd ein harsylwadau ni fod y Bwrdd yn gydlynus.

16 Cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau i gynnal busnes mewn ffordd agored a thryloyw. Nid yw'r Bwrdd wedi gallu cynnal cyfarfodydd yng ngŵydd y cyhoedd a symudodd yn gyflym at gyfarfodydd rhithwir. I hwyluso cymaint o natur agored a thryloywder â phosibl, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi agendâu a phapurau mor bell â phosibl ymlaen llaw ar ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaeth hefyd gynhyrchu crynodeb o gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai ar yr un diwrnod, er bod y crynodeb heb gael llawer o gyhoeddusrwydd. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn dal i gael ei wahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd rhithwir y Bwrdd ac i gyfrannu atynt.

17 I wella effeithlonrwydd, mae Aelodau Annibynnol yn anfon cwestiynau a sylwadau ynglŷn â phapurau pwyllgorau ymlaen llaw cyn cyfarfodydd. Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda ac mae ymatebion i gwestiynau'n cael eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgorau ymlaen llaw cyn cyfarfodydd Pwyllgorau i ddarparu sicrwydd.

18 Mae'r arfer o ffrydio cyfarfodydd misol y Bwrdd yn fyw'n cynyddu tryloywder gyda sianeli'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfodydd. Fodd bynnag, gallai'r dolenni gwe i'r cyfarfodydd hyn gael eu gwneud yn fwy hygyrch ar hafan dudalen gwefan y Bwrdd Iechyd i alluogi'r cyhoedd i wylio'n fyw neu ar ôl y digwyddiad.

19 Mae moesau cyfarfodydd rhithir wedi cael eu rhoi ar waith, gydag ymarferoldeb meddalwedd yn cael ei ddefnyddio gan aelodau'r Bwrdd i godi cwestiynau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd wedi addasu'n dda i'r trefniadau gweithio newydd hyn.

20 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd, er enghraifft rhedeg sesiynau holi ac ateb byw ar destunau pwysig fel ailgychwyn gwasanaethau.

21 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ar ffyrdd newydd o weithio a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig ac wedi dynodi ei fod yn bwriadu:

- cadw'r arfer o weithio'n rhithwir ac agendâu â ffocws penodol, gan gynnwys cadw'r broses 'agenda gydsynio' lle mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n cymeradwyo eitemau na oes angen eu trafod am eu bod naill ai'n eitemau rheolaidd neu eu bod wedi cytuno'n unfrydol arnynt yn barod. Cymerir yr agenda Gydsynio cyn y brif agenda, a bydd y Cadeirydd yn sicrhau cydsyniad â'r eitemau hyn, neu os na, byddant yn cael eu symud i'r brif agenda.
- adeiladu ar y cyfathrebu cynyddol yn ystod COVID-19 yn fewnol ac yn allanol, trwy'r defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol a chyfarfodydd staff.

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos dull da o ddysgu, trwy gofnodi gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig trwy'r strwythur gorchymyn a rheoli. Cafodd yr allbwn o hyn ei gofnodi mewn Adroddiad Cau Aur ac Arian ffurfiol ym mis Mai 2020, er nad yw hwn wedi cael ei rannu gyda'r Bwrdd.

## Cafodd trefniadau llywodraethu eu diwygio'n gyflym i ymateb i heriau'r pandemig ac er bod y trefniadau'n gadarn at ei gilydd, roedd rhai bylchau'n amlwg

23 Fe roddodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun digwyddiadau mawr ar waith ac fe sefydlodd strwythur gorchymyn a rheoli cadarn ym mis Mawrth 2020 i ymateb i'r pandemig. Roedd hwn yn ei le am oddeutu deg wythnos hyd at ddiwedd mis Mai 2020. Roedd y strwythur yn cynnwys y canlynol:

- **Grŵp Rheoli Aur** – a wnaeth bennu'r strategaeth drosfwaol yr oedd yn rhaid i'r holl gynlluniau eraill roi ystyriaeth iddi;
- **Grŵp Rheoli Arian** – a wnaeth gydgysylltu'r strategaethau tactegol, unigol a ddatblygwyd gan y grwpiau Rheoli Efydd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu strategaethau trosfwaol Aur ac yn cyfrannu atynt; a'r
- **Grŵp Rheoli Efydd** – a oedd yn gyfrifol yn weithredol am strategaethau y cytunwyd arnynt yn unigol a sicrhau bod cynlluniau tactegol yn cael eu datblygu i'w hategu.

24 Fe gynigiodd y Bwrdd Iechyd ddiwygiadau i'w fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ganllawiau a chyngor Llywodraeth Cymru, y gwnaeth y Pwyllgor Archwilio graffu arnynt yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Cafodd y fframwaith llywodraethu diwygiedig a newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo eu cymeradwyo trwy Weithredu gan y Cadeirydd ganol mis Mawrth a'u cadarnhau wedyn gan y Bwrdd ym mis Mai. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys amrywiadau dros dro i rannau o'r Rheolau Sefydlog yn ogystal â'r canlynol:

- tynnu cyfarfodydd yr holl bwyllgorau'n ôl am dri mis ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;
- adnabod trydydd a phedwerydd cadeirydd dirprwyedig i ddarparu trefniant wrth gefn rhag ofn y byddai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol, gyda threfniadau tebyg ar gyfer y Prif Weithredwr; a hefyd
- cyflwyno 'Agenda Gydsynio' ar gyfer holl gyfarfodydd y Bwrdd fel a eglurir ym **mharagraff 21**.

25 Ar yr adeg y cafodd trefniadau llywodraethu eu diwygio ar gyfer y pandemig, roedd y Bwrdd Iechyd yn y broses o newid y strwythur pwyllgorau presennol i ailbennu ffocws cydbwysedd y gwaith. Ym mis Ionawr 2020, roedd y Bwrdd Iechyd wedi tynnu ei Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn ôl i'w ddisodli â dau bwyllgor newydd, sef y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a fydd yn canolbwyntio ar faterion allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu.

26 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adolygu ei drefniadau llywodraethu'n barhaus gan amcanu at ailgychwyn pwyllgorau a dynnwyd yn ôl yn ystod y pandemig. Cyfarfu'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid newydd am y tro cyntaf ym mis Mai i ddarparu adolygiad ôl-weithredol o'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â COVID-19. Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd am y tro cyntaf tuag at ddiwedd mis Gorffennaf 2020.

27 Gwahoddwyd yr holl Aelodau Annibynnol i fod yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Yn y cyfarfod, fe gafodd yr Aelodau

Annibynnol, am y tro cyntaf, linell amser a manylion y penderfyniadau strategol ac ariannol a wnaed gan swyddogion mewn ymateb i COVID-19 hyd at ganol mis Mai. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno penderfyniadau ynghylch gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 i'r Pwyllgor er mwyn iddo graffu arnynt cyn bod y Bwrdd yn eu cymeradwyo. Hyd at yr adeg hon, roedd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd yn cael ei hysbysu'n ddyddiol gan y Prif Weithredwr am ymrwymiadau gwariant a phenderfyniadau strategol allweddol.

28 Fe barhaodd gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i ganolbwyntio ar fusnes rheolaidd. Fodd bynnag, ni chraffodd y pwyllgorau ar rai penderfyniadau allweddol, megis cau Uned Fydwreigiaeth Annibynnol Tirion ym mis Mai, ddeng niwrnod ar ôl ei hagor, o ystyried y diffyg staff oherwydd COVID-19. Ar ben hynny, ni chafodd y Pwyllgorau unrhyw wybodaeth am effaith cau'r uned ar gleifion.

29 O ystyried yr argyfwng o ran iechyd y cyhoedd a oedd yn esblygu'n gyson roedd gwendidau yn y systemau ar gyfer logio penderfyniadau trwy'r strwythurau gorchymyn a rheoli. Canfu adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol wendidau mewn perthynas â'r logiau o benderfyniadau a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, megis oedi cyn eu rhoi ar waith a phenderfyniadau a ddylai fod wedi cael eu huwchgyfeirio trwy'r strwythur rheoli. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi amlygu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

30 Fe gymeradwyodd y Bwrdd newidiadau dros dro i'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â materion a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 (gweler **paragraff 58**) gydag un mân newid a oedd yn ymwneud â chymeradwyo eitemau cyfalaf dros £1 filiwn. Ni phennwyd ffrâm amser ar gyfer adolygu'r newid i'r cynllun dirprwyo.

31 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei gylch o gyfarfodydd y Bwrdd a amserlennwyd a rhai'r pwyllgorau a gadwyd trwy'r trefniadau llywodraethu diwygiedig. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd roi model gweithredu newydd ar waith ym mis Ebrill 2020. Mae pwyllgorau wedi bod yn canolbwyntio'n fwy ar y materion allweddol; fodd bynnag, mae llwyth gwaith sylweddol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch o hyd, sy'n rhywbeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohono ac yn gweithio i fynd i'r afael ag ef. Bu presenoldeb llawn yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau a chanfu ein harsylwadau ar y cyfarfodydd hyn fod craffu a herio effeithiol yn digwydd.

32 Fe gymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i amlder cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ym mis Mehefin, y bydd yn eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2020. Y cynnig a gymeradwywyd yw:

- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn fisol yn hytrach na phob deufis i roi cymorth i wneud penderfyniadau amserol;
- bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwrdd bob deufis fel arfer; a
- bydd pob pwyllgor arall yn cwrdd yn chwarterol ac eithrio'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a fydd yn mynd yn ôl i gynnal cyfarfodydd blynyddol.

33 Gallai'r amlder a fwriedir ar gyfer cyfarfodydd rhai pwyllgorau gyfyngu ar y cyfleoedd i ddarparu gweithgarwch craffu a sicrwydd digonol ar gyfer y Bwrdd o ystyried y bydd yn cwrdd yn fisol. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu

cyflwyno penderfyniadau ynghylch gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid er mwyn iddo graffu arnynt cyn eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd (gweler **paragraff 27**) ond yn chwarterol y bydd y Pwyllgor yn cwrdd.

## Rheoli risgiau

### Mae'r gwaith i ddatblygu elfennau o'r system rheoli risgiau'n mynd rhagddo ond mae COVID-19 wedi arafu'r cynnydd

34 Mae'r Bwrdd Iechyd yn amcanu at fod ag un dull strategol o reoli risgiau ac mae wedi bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai meysydd lle ceir gwendidau. Rhoddwyd strategaeth rheoli risgiau newydd ar waith ym mis Mawrth 2020 a chytunwyd ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n bodoli ar sail interim. Fodd bynnag, bu ychydig bach o oedi gyda gwaith i gytuno ar y prif risgiau ac i gytuno ar y parodrwydd i dderbyn risg oherwydd COVID-19 gyda gwaith i fod i ailddechrau ym mis Medi 2020, er bod diweddariadau rheolaidd ar gynnydd wedi cael eu darparu. Mae'r cyfrifoldeb am reoli risgiau ar lefel gorfforaethol yn y sefydliad yn gorwedd gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gan bod hyn yn cysylltu risgiau'n well â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar elfennau o'r system rheoli risgiau fel rhan o'n Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd yn hwyrach yn 2020.

35 Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd fodel gweithredu newydd ar 1 Ebrill 2020. Un elfen o hyn oedd sefydlu'r Grwpiau Ardal Integredig (GAI) Newydd sy'n atebol am ansawdd gofal, iechyd y boblogaeth, deilliannau cleifion, a chynllunio a chyflawni mewn ardal ddaearyddol. Gellir deall bod y pandemig wedi arafu gwaith y mae ei angen i fapio risgiau perthnasol o'r strwythur blaenorol i'r Grwpiau Ardal Integredig newydd, ac i sefydlu fframweithiau rheoli risgiau ar gyfer y grwpiau ardal newydd.

36 Cafodd y gofrestr risgiau sefydliadol ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth a mis Mai; fodd bynnag, nid yw wedi cael ei chyflwyno ers hynny. Ar adeg ein gwaith maes, cafodd y gofrestr ei hadolygu gan y tîm Gweithredol cyn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Medi, gyda'r cynnydd yn cael ei arafu gan COVID-19 a chapasiti cyfyngedig y Grwpiau Ardal Integredig i gynnal yr adolygiadau manwl yr oedd eu hangen i oleuo'r gofrestr risgiau corfforaethol.

37 Datblygodd y Bwrdd Iechyd Gofrestr Risgiau a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19, a oedd yn casglu risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ymateb y sefydliad i'r pandemig. Roedd y gofrestr risgiau COVID-19 yn cael ei monitro a'i hadolygu'n wythnosol gan y Grŵp Rheoli Aur gyda risgiau'n cael eu huwchgyfeirio o'r cyfarfodydd Arian ac Efydd. Roedd cofrestr risgiau'r Grŵp Rheoli Aur yn cael ei rhannu trwy iBabs gyda'r Bwrdd (aelodau annibynnol) yn wythnosol i sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn craffu ar risgiau ac yn rhoi sicrwydd yn eu cylch, ac fel bod modd arsylwi ar newidiadau yn sgoriau risgiau a monitro'r rhain yn wythnosol, nad oedd yn bosibl gydag amlder cyfarfodydd y Bwrdd neu Bwyllgorau. Fodd bynnag, ni chafodd y gofrestr risgiau yn benodol â COVID-19 ei rhannu gyda'r Bwrdd na'i

bwyllgorau ac ni fuont yn craffu arni. Cafodd y Grŵp Rheoli Aur ei ddiddymu ym mis Mai a chafodd y risgiau a oedd yn dal i fodoli mewn perthynas â'r gofrestr risgiau COVID-19 eu trosglwyddo i'r gofrestr risgiau sefydliadol.

## Systemau sicrwydd

### Mae ffocws ar ansawdd a diogelwch wedi cael ei gynnal; fodd bynnag, bu bylchau amlwg o ran monitro metrigau'r gweithlu

38 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fel rheol wedi bod yn cael sicrwydd perthnasol ynghylch materion sy'n gysylltiedig â COVID-19 gan gael diweddariadau rheolaidd ynghylch COVID-19 gan y swyddog gweithredol arweiniol ar gyfer y Grŵp Rheoli Aur. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys gwybodaeth lefel uchel am y pandemig, megis cyfraddau heintio â COVID-19, niferoedd y marwolaethau a sylwebaeth ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â COVID-19 megis cyflwyno Profi, Olrhain a Diogelu. Er bod y Grŵp Aur wedi cael ei dynnu'n ôl ym mis Mai, mae'r adroddiadau diweddaru ar COVID-19 yn dal i gael eu paratoi. Mae'r adroddiadau hyn wedi parhau i esblygu ac roedd y diweddariad diweddaraf i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Medi'n cynnwys gwybodaeth am y dangosyddion rhybudd cynnar a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i fonitro COVID-19, er mwyn deall a oes angen i'r Bwrdd Iechyd ailsefydlu ei ymateb i'r argyfwng (gweler **paragraff 68** am ragor o fanylion am y dangosyddion rhybudd cynnar).

39 Ym mis Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodyn cyfarwyddyd ar gyflawni cyfrifoldebau pwyllgorau byrddau yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19, o ystyried bod llawer o bwyllgorau byrddau wedi cael eu tynnu'n ôl. Mae'r nodyn cyfarwyddyd yn nodi'r mathau o faterion y gallai byrddau ystyried eu dirprwyo i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, gan gynnwys agweddau ar ddiogelwch a lles staff, lefelau absenoldeb oherwydd COVID-19 a'r effaith ar staffio diogel a darparu gwasanaethau hanfodol. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd ystyriaeth i'r canllawiau hyn ac fe gyflwynodd ei waith mapio yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai. Roedd y gwaith mapio hefyd yn cynnwys amlinelliad manwl o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd yn erbyn pob un o'r elfennau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, er enghraifft cyflwynwyd sicrwydd ynghylch y gwasanaethau hanfodol nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Mai 2020 a chyflwynwyd gwybodaeth am gapasiti meysydd eraill nad ydynt yn trin cleifion megis patholeg mewn perthynas â COVID-19 a phatholeg arall i'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad ym mis Mai.

40 Fe ddirprwyodd y Bwrdd drosolwg ar ddiogelwch a lles staff a metrigau'r gweithlu i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Fodd bynnag, dim ond ym mis Gorffennaf y cyfarfu'r pwyllgor am y tro cyntaf. Nid yw'r materion hyn yn cael eu cynnwys yn y diweddariadau rheolaidd ynghylch COVID-19 a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac ni chafodd adroddiad arfaethedig i gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Medi ar Gyfarpar Diogelwch Personol ei gynhyrchu. Er na chafodd y Bwrdd na'i bwyllgorau sicrwydd, ar lefel weithredol, roedd materion diogelwch a lles staff yn cael eu monitro'n barhaus gan y grwpiau

gorchymyn a rheoli ac mae hyn yn parhau trwy drefniadau rheoli gweithredol. Pan gyfarfu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, cafodd adroddiad ar fetrigau'r gweithlu a oedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am lefelau absenoldeb oherwydd salwch a chyfraddau ynysu staff i oleuo'r drafodaeth am lefelau staffio diogel.

41 Ar ddechrau'r pandemig fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd broses asesu risgiau ar gyfer staff i adnabod y staff a oedd yn wynebu'r risg fwyaf oherwydd COVID-19. Ers hynny mae wedi rhoi Offeryn Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu Cymru Gyfan ar waith. Roedd gwybodaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf yn dynodi bod 72% o staff wedi cwblhau'r hunanasesiad ond ni adroddwyd ar ddeilliannau eto. Roedd cofnodi gwybodaeth ar risg y feirws i staff yn anodd i ddechrau, o ystyried mai dim ond traean o gofnodion staff oedd yn cael eu dal ar y system cofnodion Staff Electronig ar ddechrau'r pandemig. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol, a bellach mae gan y Bwrdd Iechyd wybodaeth am y gweithlu cyfan sy'n eithriadol o gadarnhaol.

42 Fe barhaodd trefniadau i gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion trwy gydol cyfnod y pandemig, gydag adroddiadau rheolaidd o ardaloedd lleol a'r dangosfwrdd ansawdd ar themâu cwynion a oedd wedi cael eu codi a'u nodi a'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad. Yn sgîl pandemig COVID-19 mae adborth gan gleifion mewn amser real wedi cael ei atal; fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn defnyddio cardiau adborth 'dweud eich dweud', sydd wedi galluogi staff i adnabod effaith y profiad o ofal a dathlu llwyddiant ond hefyd mynd i'r afael ag unrhyw faterion. Mae storïau cleifion wedi parhau ac yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch diweddaraf fe gawsant stori claf a oedd yn amlygu materion mewn perthynas â chyfathrebu a'r profiad o fod yn weithiwr allweddol, dal COVID-19 a'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg posibl cyfarpar diogelwch personol mewn meysydd nad ydynt yn trin COVID.

43 Mae agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ddigyfnewid i raddau helaeth gyda'r Pwyllgor yn parhau i gael y dangosfwrdd ansawdd a sicrwydd rheolaidd mewn meysydd allweddol, megis Gweithio i Wella, cydymffurfiaeth â Deddf Lefelau Staff Nyrsio Cymru, a chydymffurfiaeth ag adolygiadau o farwolaethau cyffredinol. Hefyd, fe wnaeth y pwyllgor ystyried adroddiad mwy manwl ym mis Mai ar gynllun y gweithlu nyrsio i gefnogi'r galw cynyddol a'r canlyniadau ar gyfer Gofynion Staff Nyrsio. Mae'r gwaith yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi dechrau edrych arno ar niwed hefyd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer adolygiadau COVID-19. Mae'r dangosfwrdd perfformiad integredig yn cynnwys manylion niwed a achoswyd gan ostyngiad mewn gweithgarwch oherwydd COVID-19. Mae'r pwyllgor hefyd wedi cael diweddariadau ynghylch gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol gan gynnwys asesiad cychwynnol o rai meysydd lle'r oedd amseroedd aros oherwydd COVID-19 yn cael effaith ar wasanaethau.

44 O lefel weithredol fe oruchwyliodd y Grŵp Aur y broses o sefydlu pwyllgor moeseg glinigol i gynorthwyo clinigwyr i wneud penderfyniadau yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu polisi a set o egwyddorion ar gyfer gofal diwedd

oes yn ystod COVID-19 a bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol newydd yn canlyn arni â gwaith sy'n gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â DNACPR[3].

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd i'r afael ag argymhellion o archwiliadau ac adolygiadau allanol ond fe ataliwyd yr arfer o adrodd yn ffurfiol ar gynnydd yn ystod y pandemig

45 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau, lle y bo'n bosibl, i fynd i'r afael ag argymhellion gan archwilwyr a rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Uned Gyflawni GIG Cymru. Yn ystod y pandemig, fe ataliodd y Bwrdd Iechyd yr arfer o adrodd yn ffurfiol ar gynnydd; fodd bynnag, mae craffu gweithredol gan y timau gweithredol wedi parhau. Bydd gwaith yn ailddechrau'n fuan ac mae disgwyl i adroddiad ar gynnydd gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg fis Hydref yma.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn argymhellion o'r adolygiad ar y cyd gan AGIC/Archwilio Cymru ynghylch llywodraethu ansawdd. Rhannwyd diweddariad diweddar gyda ni a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mewn ymateb i'r argymhellion gan archwilwyr mewnol ac allanol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio i wella systemau a phrosesau ar gyfer tracio cynnydd gydag argymhellion archwilio. Cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau'n ddiweddar i geisio diweddariadau gyda golwg ar gyflwyno offeryn tracio wedi'i ddiweddaru gyda graddfeydd amser gweithredu diwygiedig i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Hydref.

47 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i gael canfyddiadau adroddiadau archwilio wedi'u cwblhau, ac mae ymatebion rheolwyr i'r rhain yn cael eu paratoi. Cafwyd adolygiadau eraill hefyd, megis adroddiadau AGIC.

48 Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi amlygu diffyg trefn i dracio argymhellion archwilio sy'n codi o waith arolygiaethau eraill neu o adolygiadau rheoleiddiol neu gan y Coleg Brenhinol. Mae COVID-19 wedi effeithio ar hyn, ond mae gwaith ar y gweill.

## Rheoli adnoddau ariannol

49 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

50 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2019-20 a'i fod wedi parhau i ddangos rheolaethau ariannol effeithiol ond bod costau sy'n gysylltiedig ag ymateb i COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol**.

[3] Na cheisier dadebru cardio-anadlol.

# Cyflawni amcanion ariannol allweddol

## Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol yn 2019-20 ond mae costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn golygu bod risg i'r sefyllfa ariannol yn 2020-21

### Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2019-20 gan fod â gwarged mawr

51 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ateb ei ofyniad statudol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf. Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer 2019-20 a ardystiwyd yn ddiweddar yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwarged o £883,000 yn erbyn ei ddyraniad refeniw a gwarged o £992,000 dros gyfnod treigl o dair blynedd. Fe gwrddodd y Bwrdd Iechyd â'i derfyn adnoddau cyfalaf ac fe gyflawnodd warged bach o £24,000 yn erbyn ei ddyraniad cyfalaf a gwarged o £42,000 dros gyfnod treigl o dair blynedd.

52 Pan drosglwyddwyd cyfrifoldeb ar 1 Ebrill 2019 am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer pobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r Bwrdd Iechyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (a adwaenir bellach fel Bae Abertawe) fe ddaeth hyn â heriau ychwanegol yn ei sgîl, gyda'r rhagolwg cylchol yr adroddwyd arno gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 yn ddiffyg o:

- £17.9 miliwn cyn effaith y fformwla cyllido newydd; a
- £23.3 miliwn ar ôl effaith y fformwla cyllido newydd.

53 Nododd y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £10 miliwn ar gyfer 2019-20 a chyflawnodd arbedion gwirioneddol o £10.3 miliwn am y flwyddyn honno, yr oedd £9.2 miliwn ohonynt yn arbedion cylchol. Fe wnaed arbedion ar feysydd a oedd yn ymwneud â Rheoli Meddyginiaethau mewn gofal Sylfaenol ac Eilaidd, ac fe wnaeth y Bwrdd Iechyd arbedion mewn meysydd heblaw cyflogau a meysydd sy'n ymwneud â chyflogau.

### Mae'r cynllun ariannol yn rhagweld diffyg o £58 miliwn ar hyn o bryd oherwydd COVID-19

54 Ym mis Mawrth, fe gymeradwyodd y Bwrdd y cynllun ariannol a oedd wedi'i nodi yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2020-21 i 2022-23. I fantoli'r cyfrifon yn 2020-21, fe bennodd y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £20.6 miliwn i roi cymorth i gyflawni cynaliadwyedd ariannol a gwella gwasanaethau.

55 Ym Mis 4, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni arbedion ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn o £0.58 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen iddo gydweithio'n agosach gyda Grwpiau Ardal Integredig ond oherwydd COVID-19 fe effeithiwyd ar hyn. Fe wnaeth y timau cyllid adfer eu cyfarfodydd cyllid rheolaidd ym mis Gorffennaf fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad newydd i gefnogi'r Grwpiau Ardal Integredig. Mae'r cyfarfodydd hyn yn

darparu cyswllt uniongyrchol rhwng y tîm cyllid corfforaethol a'r Grwpiau Ardal Integredig i sicrhau bod pwysau o ran costau'n cael eu deall yn llawn, a bod cynlluniau arbedion yn cael eu hadnabod a'u monitro.

56 Ym mis 4, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagweld diffyg yn ystod y flwyddyn o £58 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 oherwydd costau parhaus ymateb i COVID-19. Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn hefyd yn ystyried gostyngiadau mewn gwariant gweithredol o £16.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn 2020-21 a llithriant ar fuddsoddiadau arfaethedig ac addasu cyllid datblygu o £4.2 miliwn at ddibenion gwahanol, a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £10.3 miliwn ar gyfer COVID-19.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n barhaus yn adolygu ac yn addasu ei ragolwg o gostau a gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19 ochr yn ochr â'i waith cynllunio gweithredol chwarterol. Fodd bynnag, ni fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu ariannu'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 heb gynyddu ei ddiffyg yn sylweddol neu ddibynnu ar gyllid ychwanegol i gwrdd â'r costau hyn.

## Rheolaethau ariannol

### Fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei reolaethau ariannol arferol yn ystod y pandemig ond roedd oedi cyn cofnodi penderfyniadau ariannol allweddol

58 Fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei reolaethau ariannol arferol. Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gyda mân newid yn unig i'r Cynllun Dirprwyo i alluogi'r grwpiau Aur, Arian ac Efydd i neilltuo gwariant yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig. Fe arhosodd yr holl reolaethau ariannol eraill yr un fath, er enghraifft ni wnaed unrhyw newidiadau i brosesau ar gyfer cymeradwyo goramser. Fe gynhyrchodd y Bwrdd Iechyd ddogfen un dudalen eglur a oedd yn nodi'r terfynau dirprwyedig ariannol ar gyfer y strwythur Rheoli Aur, Arian ac Efydd. Roedd hon yn nodi'r terfynau dirprwyedig ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw.

59 Defnyddiwyd y drefn Gweithredu gan y Cadeirydd ar gyfer unrhyw benderfyniadau brys ar wariant sylweddol o fewn terfynau awdurdodedig hefyd, er enghraifft mewn perthynas â sefydlu ysbytai maes a'r offer yr oedd ei angen.

60 Mae trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i fonitro gwariant ar COVID-19, ac mae rhai cyllidebau wedi'u rhannu rhwng y ddau faes. Mae codau ar gael yn Oracle i gategoreiddio gwariant. Mae'r cyfarfodydd adolygu ariannol misol gyda'r Grwpiau Ardal Integredig a adferwyd yn ddiweddar yn cael eu defnyddio i adnabod unrhyw achosion o gategoreiddio gwariant yn anghywir rhwng COVID-19 a chostau eraill. Mae'r tîm cyllid hefyd yn amcanu at wella cysondeb o ystyried bod rhyw lefel o ddisgresiwn gan reolwyr ar hyn o bryd.

61 Ym **mharagraff 29**, rydym yn cyfeirio at oedi cyn rhoi logiau o benderfyniadau ar waith. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n ôl-weithredol i grynhoi'r penderfyniadau a wnaed trwy strwythurau gorchymyn a rheoli mewn un ddogfen.

Wrth roi'r logiau o benderfyniadau at ei gilydd yn ôl-weithredol, canfu'r Bwrdd Iechyd y dylai rhai penderfyniadau fod wedi cael eu huwchgyfeirio o fewn y strwythur gorchymyn a rheoli. Mae adolygiad cyflym y gwasanaeth Archwilio Mewnol o lywodraethu hefyd wedi amlygu nifer o faterion gyda'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i'w llunio. Pan rannwyd y logiau o benderfyniadau gyda'r Pwyllgor Perfformiad, Cynllunio a Chyllid ym mis Mai, roedd rhai aelodau'n teimlo bod angen rhagor o fanylion am y rhesymeg dros benderfyniadau.

62 Er bod y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid wedi cael ei dynnu'n ôl am gyfnod byr pan oedd y pandemig ar ei anterth, fe barhaodd y Bwrdd i fod â throsolwg a chraffu ar y sefyllfa ariannol. Cafodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ym mis Mehefin adroddiadau amserol ar gyfer pob un o'i gyfarfodydd. Mae trafodaeth wedi bod yn agored gyda chraffu da gan Aelodau Annibynnol.

63 Mae prosesau adrodd yn gynhwysfawr ac mae gwybodaeth yn gyson â'r hyn a ddarperir ar gyfer Llywodraeth Cymru trwy ffurflenni monitro misol, er ein bod yn nodi ym **mharagraff 33** bod problem bosibl gyda'r amlder a fwriedir ar gyfer cyfarfodydd rhai pwyllgorau. Mae'r adroddiadau'n darparu darlun clir o'r sefyllfa ariannol, heriau a risgiau, a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd.

# Cynllunio gweithredol

64 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

65 Canfuom fod **cynlluniau gweithredol wedi'u goleuo gan waith cadarn i fodelu'r galw a'r capasiti a bod ymrwymiad clir i les staff ac addasu i'r ffyrdd newydd o weithio gyda threfniadau'n datblygu ar gyfer adrodd ar gynnydd**.

## Datblygu'r cynlluniau

### Fe weithiodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym gyda'r Bwrdd i ddatblygu cynlluniau gweithredol a oedd yn seiliedig ar waith cadarn i fodelu'r galw a'r capasiti a chanllawiau Llywodraeth Cymru

66 Cafodd proses y CTCI ar gyfer 2020-2023 ei hatal i ganiatáu i sefydliadau ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer COVID-19 ac i gyfeirio adnoddau at heriau gweithredol. Mae CTCI 2019-2022 yn dal i fod mewn bodolaeth o ystyried bod proses y CTCI ar gyfer 2020-2023 wedi cael ei hatal i ganiatáu i sefydliadau ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer COVID-19 ac i gyfeirio adnoddau at heriau gweithredol. Yn y tymor byr, mae'n ofynnol i gyrff y GIG ddatblygu cynlluniau gweithredol ailadroddol ar gyfer pob chwarter a'r rheiny'n nodi paratoadau ar gyfer

brigau COVID-19 yn y dyfodol, darparu gwasanaethau hanfodol, ac ailgychwyn gwasanaethau rheolaidd lle y bo'n ddiogel gwneud hynny.

67 Fe weithiodd y Bwrdd Iechyd yn dda gyda'i Fwrdd i ddatblygu cynlluniau chwarter un a chwarter dau, gan gynhyrchu'r ddau'n gyflym a'u cyflwyno ar amser. Cafodd aelodau'r Bwrdd y cyfle i wneud sylwadau a herio. Roedd y cynlluniau'n gyson at ei gilydd â'r fframwaith cynllunio gweithredol. Mae cynllun chwarter dau'n cynnwys mwy o fanylder ac yn cynnwys cynlluniau adfer wedi'u hatodi ar gyfer rhai gwasanaethau megis iechyd meddwl, gwasanaethau meddygol cyffredinol, fferylliaeth gymunedol a chynllun y gaeaf.

68 Mae modelu data wedi bod yn rhan annatod o ddull a phrosesau penderfynu'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig. Mae wedi goleuo'r gwaith i fodelu'r capasiti/galw ar gyfer cynllunio gweithredol ac mae'n dal i oleuo gwaith cynllunio yn chwarteri 3 a 4. Yng nghynllun gweithredol Chwarter 2, fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd set o ddangosyddion rhybudd cynnar i'w alluogi i baratoi ar gyfer ymchwydd sydyn mewn achosion COVID-19. Mae'r 17 o ddangosyddion hyn yn cwmpasu meysydd megis yr achosion COVID-19 beunyddiol yn ogystal ag achosion mewn grwpiau gweithwyr allweddol a chyfraddau heintio mewn ysbytai ac maent yn cael eu monitro gan y tîm gweithredol ac yn rhan o adroddiadau ar gyfer pwyllgorau allweddol.

69 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cylch cynllunio chwe wythnos i sicrhau bod y cynllun gweithredol yn dal i fod yn ystwyth ac yn berthnasol. Y tîm Gweithredol ddatblygodd cynlluniau gweithredol chwarterol y Bwrdd Iechyd. Mae cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n wythnosol gan 'Dîm Rheoli Ailosod CTM[4]', lle cyflwynir diweddariad ar bob ffrwd waith sydd wedi'i chynnwys yn y fframwaith gweithredu. Mae gan y cynlluniau naw ffrwd waith a arweinwyr gan y tîm gweithredol, sydd wedi'u halinio'n ddefnyddiol â phedwar amcan llesiant strategol y Bwrdd Iechyd. Tanategir cynllun Chwarter 2 gan nifer fach o gynlluniau cyflawni sector hefyd megis fferylliaeth gymunedol.

70 Trwy gydol y pandemig mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud pob ymdrech i leihau'r effaith negyddol ar wasanaethau hanfodol a rheolaidd. Fe wnaeth Grwpiau Ardal Integredig y Bwrdd Iechyd asesu ei wasanaethau hanfodol yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cynnal llawer o wasanaethau hanfodol trwy addasu llwybrau a pholisïau, rhedeg clinigau rhithwir a thrwy frysbennu effeithiol. I ddechrau, yn ystod chwarter 1, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cynnal yr holl wasanaethau hanfodol, gan gynnwys y rhai ar gyfer canser gastroberfeddol isaf ac uwch, canser y thyroid, endosgopi a gwasanaethau poen. Erbyn chwarter 2, roedd y Bwrdd Iechyd yn darparu pob gwasanaeth hanfodol heblaw un, sef llawfeddygaeth yr ysgyfaint. Oherwydd cynnydd yn y galw, roedd y Bwrdd Iechyd yn cael problemau cael mynediad at y gwasanaeth hwn oherwydd capasiti cyfyngedig ei ddarparwr gwasanaethau. Mae cynlluniau yn eu lle bellach i ddatrys y mater hwn.

[4] Ailosod CTM yw enw'r fframwaith gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ynddo'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn.

71 Gwelodd y Bwrdd Iechyd ostyngiad yn y galw am wasanaethau dewisol, rheolaidd yn ystod chwarter 1. Fodd bynnag, gan bod cwymp wedi bod mewn cyfraddau atgyfeirio nid yw'r rhestr aros wedi tyfu'n sylweddol, ond mae amseroedd aros wedi cynyddu. Roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn adolygu cleifion yn ystod y cyfnod pan oedd llai o weithgarwch. Mae cynllun chwarter 2 yn disgrifio sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull pwyllog ac wedi'i gynllunio i gynyddu gweithgarwch dewisol. Er enghraifft, trwy ddefnydd parhaus ac wedi'i gydgysylltu'n well o'r sector annibynnol, rheoli llawfeddygaeth ddewisol yn ei ysbytai cyffredinol dosbarth a chreu ardaloedd lle nad oes COVID.

72 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd addasu'r ffordd yr oedd gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu darparu yn ystod chwarter 1. Roedd hyn yn cynnwys meddygon teulu'n brysbennu cleifion dros y ffôn, trefniadau i reoli grwpiau agored i niwed yn y gymuned mewn modd rhagweithiol a lleihau darpariaeth ddeintyddol ac optometreg nad yw'n hanfodol. Mae cynlluniau chwarter 2 ar gyfer ailosod yr holl wasanaethau contractwyr gofal sylfaenol yn eu lle. O ystyried yr angen i sicrhau bod y cyhoedd yn deall protocolau newydd ar gyfer gwasanaethau, mae'n gadarnhaol gweld bod Ailosod CTM yn cynnwys trosolwg da ar strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu COVID-19 y Bwrdd Iechyd.

73 Mae'r cynlluniau'n glir o ran sut y mae COVID-19 yn cael ei reoli mewn cartrefi gofal ond mae angen rhagor o waith ar sut y bydd y Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn sicrhau cydnerthedd ar draws y sector gofal cymdeithasol, o ystyried pwysigrwydd gofal cymdeithasol i gadw pobl agored i niwed yn iach yn eu cartrefi. Mae cyfleoedd i fyfyrio ar y camau gweithredu y gallai'r Bwrdd Iechyd eu cymryd wrth ddatblygu ei gynllun nesaf.

## Adnoddau i gyflawni'r cynlluniau

### Mae cynlluniau gweithredol yn blaenoriaethu lles staff a'r angen i sefydlu ffyrdd newydd o weithio

74 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith helaeth i gynllunio ar gyfer y galw a chapasiti i reoli'r brigau a chafnau disgwyliedig yn y galw a achosir gan COVID-19. Mae'r cynlluniau'n cynnwys nifer o dybiaethau modelu a chynllunio ar gyfer senarios, modelu'r galw am welyau mewn Unedau Gofal Dwys, ar wardiau ac yn y gymuned. Mae dangosfyrddau dyddiol ac wythnosol a sefydlwyd yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r data mwyaf perthnasol yn ei ragdybiaethau cynllunio. Mae'r cynlluniau'n glir o ran sut y bydd y galw'n cael ei reoli, er enghraifft trwy rannu cleifion i mewn i barthau yn yr holl leoliadau gofal a defnyddio'r capasiti ymchwydd sydd ar gael. Mae cynllun Chwarter 2 yn darparu rhagor o fanylder am argaeledd adnoddau megis gwelyau gofal dwys a dull y Bwrdd Iechyd o reoli ac addasu ei weithlu. Mae'r cynlluniau'n cynnwys manylion helaeth am y modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei adnoddau ariannol yn ystod y cyfnod hwn.

75 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod manteision cydweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i leihau'r niwed o ganlyniad i COVID-19. Pe cyfyd yr angen am ddull

rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau acíwt, arbenigol ac adsefydlu mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau partneriaeth cryf gyda'i fyrddau iechyd cyfagos (Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe), ei Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Fforwm Cyflawni De, Canol a Dwyrain Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar nifer o agweddau. Er enghraifft, i gydgysylltu a chyflawni Profi, Olrhain a Diogelu a rheoli ac atal achosion lleol, i wella lles cymunedol trwy bresgripsiynu cymdeithasol a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau negeseuon cyhoeddus cyson.

76 Mae cynlluniau chwarterol y Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu lles staff yn glir. Fe ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd â chynrychiolwyr staff a chafodd cynrychiolwyr undebau llafur eu gwahodd i gyfarfodydd rheolaidd. Dros y cyfnod hwn mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gefnogi lles corfforol a meddyliol staff. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhaglen o brofi (gan gynnwys profion gwrthgyrff), wedi gweithio i sicrhau cyflenwad parhaus o gyfarpar diogelwch personol ac mae'n cwblhau asesiadau risg o grwpiau o staff sy'n agored i niwed. Mae cynllunio a modelu'r gweithlu'n effeithiol yn golygu bod y Bwrdd Iechyd yn gallu paratoi ei staff orau y gall ar gyfer brigau a ragwelir trwy sicrhau'r lefelau staffio cywir ac amserlennu absenoldeb blynyddol fel bod staff yn cael digon o orffwys. Tra'u bod ar sifft, mae'n bwysig bod staff yn cael lle i gael eu cefn atynt: yn yr ysbytai cyffredinol dosbarth a chymunedol mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu hybiau lles ac ystafelloedd dadflino. Ac mae rhaglen cynorthwyo cyflogeion y Bwrdd Iechyd wedi bod ac mae'n dal i fod ar gael ochr yn ochr â gwasanaethau cwnsela a seicolegol eraill.

77 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cofleidio ffyrdd newydd o weithio ac wedi addasu'n dda iddynt. Er bod y Bwrdd Iechyd yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â hwy, mae'n cydnabod bod angen datblygu rhai ymhellach, yn bennaf o ran cymorth technoleg. Mae ffrwd waith wedi cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a'u rhoi ar waith. Mae enghreifftiau o ffyrdd newydd o weithio'n cynnwys gweithio gartref ac yn rhithwir ac ymgyngoriadau clinigol rhithwir trwy'r platfformau 'Attend Anywhere' a 'Consultant Connect'. Mae cynllun Chwarter 2 yn amlygu meysydd allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd â'i fryd ar eu datblygu, gan gynnwys cyflwyno platfformau ymgyngoriadau clinigol rhithwir yn llawn, datblygu strategaeth ddigidol newydd, a threialu'r system DrDoctor i gasglu deilliannau ac adnabod a rheoli cyfleoedd i wella llwybrau.

## Monitro'r modd y cyflawnir y cynlluniau

### Mae'r Bwrdd wedi bod yn cael diweddariadau am gyflawniadau allweddol yn ystod chwarter 1, ac mae'n parhau i ddatblygu prosesau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau, eu deilliannau a'u heffaith

78 Er bod trefniadau monitro perfformiad cenedlaethol wedi cael eu tynnu'n ôl i raddau helaeth, fe barhaodd y Bwrdd i gael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad. Roedd y dangosfwrdd perfformiad yn cael ei ystyried yn bennaf dan yr agenda

gydsynio, ond roedd Aelodau Annibynnol yn gallu gofyn cwestiynau cyn y cyfarfod. Parhaodd y Bwrdd i gael sicrwydd ynghylch dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol megis amseroedd rhwng atgyfeiriad a thriniaeth, amseroedd aros ar gyfer diagnosis a thriniaeth canser ac mewn adrannau achosion brys. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn amlygu effaith y gwaith sy'n cael ei wneud i ailosod gwasanaethau a darparu yn ystod COVID-19. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth sy'n meintioli'r niwed posibl i gleifion o ganlyniad i ostyngiad mewn gweithgarwch gofal iechyd yn ystod y pandemig.

79 Ym mis Gorffennaf, cafodd y Bwrdd grynodeb lefel uchel o gyflawniadau o Gynllun Gweithredol Chwarter 1. Mae pob adran yng Nghynllun Chwarter 2 yn edrych yn ôl ar chwarter 1, er bod y manylder yn amrywio o un adran i'r llall. Mae'r ddau gynllun gweithredol yn cynnwys pwyntiau gweithredu lefel uchel ar ddiwedd pob adran a fydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun o ran y camau gweithredu a nodir. Mae Cynllun Chwarter 2 hefyd yn cynnwys set o fesurau arfaethedig sydd wedi'u halinio ag amcanion llesiant strategol y Bwrdd Iechyd. Ym mis Mehefin, cytunodd y Bwrdd y byddai'n cael adroddiadau misol yn erbyn y cynlluniau gweithredol chwarterol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi y bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd ddarparu arwydd cliriach o'r camau gweithredu, cerrig milltir a deilliannau y mae'n amcanu at eu cyflawni yn ei gynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar, yn enwedig mewn perthynas â'r pedwar cwadrant niwed a ddiffinnir yn Fframwaith Gweithredu GIG Cymru. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws ar gyfer monitro'r cynnydd a'r modd y cyflawnir y cynlluniau.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.